



PECYN NODDWYR 2017



Dwy theatr. Un nod.


Theatr Troed-y-rhiw . Theatr Felin-fach

YR WYL DDRAMAMA 2017

CNEIFO (HYDREF 2017)

Sioe gerdd wreiddiol ac uchelgeisiol mewn cydweithrediad â 'sgwenwyr, cyfansoddwyr, cynhyrchwyr a pherfformwyr lleol. Dyma gynhyrchiad egniol fydd yn mynd i'r afael â thraddodiad cydweithredol pwysig yn nghalendr pob ffermwr defaid yn y gorllewin – cneifo.

Y nod yw creu perfformiad cwbl unigryw fydd yn dod â phrofiadau cneifwyr o bob cenedlaeth, ac o bob cwr o Geredigion, i'r llwyfan ar ffurf drama gerdd. Bydd 'na ddefaid, gwelle, gwlan a llond sied o chwys a chwerthin!



ATGOF ATGOF (Tymor yr hydref 2017)

Drama newydd heriol am fywyd, gwaith a chariad Prosser Rhys (y bardd a'r newyddiadurwr o'r Mynydd Bach) a Morris T. Williams (gŵr Kate Roberts a chyd-berchennog Gwasg Gee).

Yn 1924, dyfarnwyd coron yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhont-y-pŵl i 'Dedalus', sef Prosser Rhys – un o feibion ardal Y Mynydd Bach, Ceredigion a gŵr hunanaddysgedig a ddaeth, yn 23 mlwydd oed, yn olygydd papur cenedlaethol Y Faner.

Ei berthynas â Morris T. Williams sydd wrth galon 'Atgof', pryddest onest-ddewr Pont-y-pŵl. Cyfansoddodd Prosser hi dan anogaeth daer Morris, ei gariad. Yn ddi-os, gobaith y ddau oedd y buasai datganiad cyhoeddus Atgof o'u perthynas yn ei gwneud hi'n bosib iddynt fyw a dathlu'u cariad yn onest ac yn agored. Nid felly y bu...



X ffactor y gymdeithas wledig Gymraeg yw'r ddrama.

Wrth i sgil-ffeithiau austerity ac ansicrwydd Brexit fwrw cefn gwlad, mi fydd egni Yr Wyl Ddrama yn ein helpu ni i drafod, siapo a chreu ein dyfodol ein hunain. **Dim llai!**

BETH FYDD GWERTH EICH NAWDD I'R WYL?

Mae **Theatr Felin-fach** a **Theatr Gydweithredol Throedyrhiw** yn bwysig i gefn gwlad am eu bod nhw'n rhoi arweiniad, hyfforddiant ac adnoddau o'r radd flaenaf at wasanaeth y gymdeithas wledig Gymraeg.

Mi fydd nawdd eich cwmni yn fodd i sicrhau bod dau brif gynhyrchiad yr ŵyl...
dan ofal cyfarwyddwyr profiadol...

yn cael defnydd o'r dechnoleg golau, sain a set ddiweddaraf...

yn cael sylw y wasg a'r cyfryngau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

BETH FYDD GWERTH Y NAWDD I CHI?

Mi fydd cefnogi cyd-fenter **Theatr Felin-fach** a **Throedyrhiw** yn fodd i'ch cwmni wneud y canlynol:

cryfhau eich delwedd fel cwmni sydd

yn ymhyfrydu yn ei gwasanaeth i gefn gwlad Cymraeg y gorllewin

creu **cysylltiadau newydd** o fewn

cyloch cydweithio busnesau Cymraeg y gorllewin

atgyfnerthu eich hymroddiad i gynnyrch

a gwasanaeth o'r **ansawdd gorau**

manteisio ar y **sylw mawr** lleol,

rhanbarthol a chenedlaethol y bydd yr ŵyl yn ei ddenu

Mi fydd eich cefnogaeth yn gymorth i **gryfhau presenoldeb**

eich cwmni ar ein cyfryngau Twitter a Facebook effeithiol.

ffilm hyrwyddo fer ar gyfer eich cwmni

i'w gosod ar eich gwefan ac ar YouTube (prif noddwr)

pecyn prif noddwr...

- Eich enw a'ch logo ynghlwm wrth enw'r wyl ar bob pennawd
- Lle i osod stondin cyhoedduswydd ymhob digwyddiad cyhoeddus
- Eich enw ynghlwm wrth holl waith cyhoedduswydd yr wyl (posteri a thafleuni / rhaglen yr wyl / hysbysebion yn y wasg a'r cyfryngau / ar y cyfryngau cymdeithasol)
- Gofod hysbysebu blaengar yn rhaglen yr wyl
- Presenoldeb amlwg yn lansiad yr wyl a phob digwyddiad cyhoeddus
- 10 tocyn braint ar gyfer y ddau brif gynhyrchiad (e.e. ar gyfer eich teulu / cydweithwyr / cwsmeriaid / cyflenwyr)
- Mynediad i dderbyniad ar noson gyntaf yr wyl
- Ffilm hyrwyddo Wes Gleï ar gyfer YouTube a'ch gwefan

pecyn noddwr lleoliad...

- Lle i osod stondin cyhoedduswydd a chael presenoldeb amlwg yn lleoliad y perfformiad
- Eich enw ynghlwm wrth gyhoedduswydd yr wyl (ar y cyfryngau cymdeithasol)
- Gofod hysbysebu yn rhaglen yr wyl
- 5 tocyn braint ar gyfer y sioe dan sylw (e.e. ar gyfer eich teulu / cydweithwyr / cwsmeriaid / cyflenwyr)
- Mynediad i dderbyniad ar noson gyntaf yr wyl

pecyn noddwr y rhaglen...

- Eich enw yn rhaglen yr wyl
- 2 docyn braint ar gyfer y ddwy sioe

Manylion cyswllt

Theatr Gydweithredol Troedyrhiw Cyf.

Uned 2, Bryn Salem, Felin-fach, Dyffryn Aeron, Ceredigion SA48 8AE
swyddfa@theatrtroedyrhiw.com 01570 471500

Theatr Felin-fach

Campws Theatr Felin-fach, Ystrad Aeron, Ceredigion SA48 8AF
www.theatrfelinfach.cymru 01570 470697